Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Ymddiriedolwr Myfyriwr


**Byddwch yn rhan o un o 2 Undeb Myfyrwyr gorau'r DU**

# Ynglŷn ag Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd (UMC) yn rhan greiddiol o fywyd myfyrwyr yng Nghaerdydd. Mae'r Undeb yma i hybu myfyrwyr i lwyddo ac rydym yn gefn iddynt pan fod angen cymorth, gan gynnig amgylchedd cynhwysol ble gall myfyrwyr fod eu hunain. Rydym yn gyson yn y tri undeb uchaf am foddhad myfyrwyr yn y DU.

Yn pontio campws Cathays a Pharc y Mynydd Bychan, mae adeiladau'r Undeb yn gweithredu 24 awr y dydd ac yn cynnwys caffis, siopau, bariau, lleoliadau cerddoriaeth, asiant dai a mannau astudio er mwyn i fyfyrwyr wneud y mwyaf o'u hamser yn y brifysgol. Mae'r holl elw o'n gweithgarwch masnachol yn mynd at wella'r gwasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael i'n myfyrwyr. Mae'r Undeb yn cael ei arwain gan dîm o swyddogion sy'n fyfyrwyr sy'n cynrychioli diddordebau myfyrwyr ac yn siapio'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gennym ni.

## STRWYTHUR Y SEFYDLIAD



# Bwrdd UMC

Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd wedi'i lywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys Swyddogion Sabothol etholedig, Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrwyr, ac Ymddiriedolwyr Allanol. Mae'r Bwrdd wedi'i gefnogi gan Uwch Dîm Rheoli, tua 100 o staff llawn amser, a 300 o staff sy'n fyfyrwyr.

Mae gan y Bwrdd 15 aelod ac mae'n cwrdd o leiaf pedair gwaith y flwyddyn. Mae Ymddiriedolwyr wedi'u hethol (neu eu dewis) yn seiliedig ar y criteria a amlinellir yn Erthyglau Cymdeithasu'r Undeb, er mwyn sicrhau bod arweiniad ar ran myfyrwyr ac arbenigedd proffesiynol.

**Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnwys:**

- Saith Ymddiriedolwr Sabothol
- Tri Ymddiriedolwr sy'n Fyfyriwr
- Dau Ymddiriedolwr wedi'u Henwebu gan y Brifysgol
- Tri Ymddiriedolwr Allanol

Mae pwyllgorau hefyd yn cwrdd tua phedair gwaith y flwyddyn yr un, ac mae disgwyl i Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrwyr fod yn aelod o leiaf un pwyllgor. Bydd un Ymddiriedolwr Myfyriwr hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn Gwasanaethau Cyfyngeiedig Undeb Caerdydd (CUSL), cwmni masnachu yr Undeb.

Pwyllgor Cyllid a Risg

Pwyllgor Pobl, Amrywiaeth, Cynhwysiant, a Diogelwch

Pwyllgor Bodlonrwydd, Ymgysylltu a Chyfranogiad

Grŵp Arfarnu'r Prif Weithredwr

Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol

[Dysgwch fwy am lywodraethu ac Ymddiriedolwyr UMC]

[Dysgu fwy am UMC]

[Darllenwch ein strategaeth, gweledigaeth, a gwerthoedd]

# Ynghylch y Cyfle

**Ynghylch y cyfle**

Rydym yn edrych am Ymddiriedolwyr Myfyriwr i roi mwy o gryfder a dyfnder i'r Bwrdd a sicrhau fod yr Undeb yn parhau i ddatblygu.

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr cryf a gweithredol yn hanfodol wrth i ni weithio i wella UMC, parhau â'n llwyddiannau, ac edrych tua'r dyfodol.

**Gwyliwch ein fideo: Pam dylech chi fod yn Ymddiriedolwr Myfyriwr**

| **Prif Gyfrifoldebau**<br><br>Mae gan bob Ymddiriedolwr gyfrifoldeb i: |
|---|
| Sicrhau fod UMC yn gweithredu yn unol â'i amcanion elusennol a dogfennau llywodraethu |
| Sicrhau bod UMC yn dilyn ei Strategaeth, Gweledigaeth, a Gwerthoedd |
| Helpu UMC i gyflawni ei amcanion er budd aelodau |
| Sicrhau bod UMC yn dilyn unrhyw ddeddfwriaethau a rheoliadau perthnasol |
| Sicrhau nad yw UMC yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau allai peryglu ei sefydlogrwydd ariannol, ei aelodau neu ei enw da |
| Gweithio gydag Ymddiriedolwyr eraill a staff mewn modd adeiladol |
| Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Bwrdd |
| Defnyddio eu sgiliau a phrofiadau proffesiynol i sicrhau bod UMC yn rhedeg yn effeithiol |
| Chwilio am gyngor allanol proffesiynol pan fod risg i'r Undeb neu le bod Ymddiriedolwyr yn torri disgwyliadau eu rôl |
| Cyfrannu at y Bwrdd a'r Undeb trwy gynnig syniadau, herio arferion, meddwl ymhellach, a chefnogi a hyrwyddo arloesedd a chreadigrwydd. |

# Manyleb y Person

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Statws** | | |
| Myfyriwr presennol ym Mhrifysgol Caerdydd sydd wedi coftrestru ar gwrs ar gyfer y flwyddyn academaidd 2026/27 | x | |
| **Gwybodaeth**<br>Dealltwriaeth dda o'r materion sy'n effeithio ar fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd | x | |
| Ymwybyddiaeth o broblemau presennol o fewn Addysg Uwch | | x |
| Ymwybyddiaeth o lywodraethu elusen dda a dealltwriaeth o Egwyddorion Nolan | | x |
| **Sgiliau, Gallu, a Gwybodaeth**<br>Y gallu i gwestiynu syniadau mewn modd adeiladol | x | |
| Y gallu i werthfawrogi gwahanol bersbectifau a barn | x | |
| Y gallu i feddwl yn strategol a gwneud penderfyniadau synhwyrol | x | |
| Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda phobl ar bob lefel | x | |
| Siaradwr Cymraeg | | x |
| **Gwerthoedd** | | |
| Unigolyn sydd wedi'u hymroi i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n weithredol wrth geisio dileu rhwystrau i gydraddoldeb | x | |
| Esiampl dda sydd bob tro'n onest | x | |

# Telerau ac Amodau

Mae'r rôl yn un di-dâl. Bydd treuliau penodol yn cael eu talu yn unol â pholisi Undeb y Myfyrwyr.

Byddwch yn y rôl am 1 blwyddyn o ddyddiad y penodiad i ddechrau, ond gall fod modd ymestyn hyn hyd at 2 mlynedd.

Yn unol â Deddf Elusennau 2008, ni allwch fod yn Ymddiriedolwr Myfyriwr os:-

- Rydych o dan 18 mlwydd oed
- Rydych wedi eich cael yn euog o drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd neu dwyll nad sydd eisoes wedi'i ystyried yn gyfreithiol di-rym
- Rydych yn fethdalwr nas rhyddhawyd
- Rydych wedi cael eich tynnu o rôl fel ymddiriedolwr elusen gan Lys neu'r Comisiwn Elusennau
- Rydych wedi eich gwahardd o dan y Ddeddfwriaeth Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau
- Rydych wedi gwneud compównd gydag unrhyw gredydwyr ac nid ydych wedi cael eich rhyddhau

# Proses Ymgeisio

Mae camau'r proses ymgeisio a dyddiadau cau allweddol wedi'u hamlinellu isod. Mae'r UM yn annog ac yn croesawu ceisiadau gan bobl o gefndiroedd amrywiol.

Os oes unrhyw addasiadau fyddai'n gwneud y proses ymgeisio yma'n fwy hygyrch, neu os oes gennych unrhyw gwestiyna, cysylltwch â SUHR@caerdydd.ac.uk

Mae arweinyddiaeth gwleidyddol a'r cyfrifoldeb am gynrychiolaeth myfyrwyr ar Fwrdd yr ymddiriedolwyr wedi'u neilltuo i'n Swyddogion Sabothol. Felly, wrth asesu pa mor addas yw'r ymgeiswyr ar gyfer rolau Ymddiriedolwyr Myfyriwr, bydd y panel cyfweld yn ceisio penodi unigolion nad ydynt yn dal swyddi ar hyn o bryd o fewn swyddogaethau democrataidd yr Undeb.

1. **Cyflwynwch eich CV a Llythyr Eglurhaol erbyn 17:00 ar Ddydd Mercher, Ebrill 15.**

2. **Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod ar Ddydd Llun, Ebrill 20 os ydynt wedi cael gwahoddiad I gyfweliad.**

3. **Bydd cyfweliadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn Ebrill 24eg yn yr adeilad Undeb Myfyrwyr.**